# y dinesydd

Mai/Mehefin 2000 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 256


# Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr o Gaerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Bro Conwy 2000!

***Medal Lenyddol y Dysgwyr***
1af Caroline Howe (Ysgol Uwchradd Caerdydd)
2il Lucy O'Neill (Ysgol Uwchradd Caerdydd)

***Tlws y Cerddor***
1af Lisa Thomas (aelod unigol)

**LLWYFAN**
*Unawd Pres dan 12 oed*
1af Daniel Phillips (Ysgol y Wern)
*Unawd Llinynnol dan 12 oed*
1af Marged Jones (Ysgol y Wern)
*Unawd Chwythbrennau dan 12 oed*
2il Osian Harri (Ysgol Gymraeg Pen-y-garth)
*Ymgom dan 12 oed*
3ydd Parti Kara (Ysgol Gymraeg Treganna)
*Parti Unsain: Oedran Bl. 6 ac iau*
*(ysgolion â dros 50 o blant rhwng 4-11oed)*
1af Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd



*Caroline Howe*
*Enillydd Medal*
*Lenyddol y Dysgwyr*
*Bro Conwy 2000*

*Côr: Oedran Bl. 6 ac iau*
*(ysgolion â dros 150 o blant rhwng 4-11oed)*
2il Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
*Cyflwyno Alaw Werin Unigol 12-15 oed*
3ydd Lowri Siôn (Ysgol Gyfun Glantaf)
*Unawd Piano 12-15 oed*
1af Mali Llywelyn (Ysgol Gyfun Plasmawr)
*Unawd Telyn 12-15 oed*
1af Mali Llywelyn (Ysgol Gyfun Plasmawr)
*Parti Deulais: Oedran Bl. 6 ac iau (Y.C./Adran)*
2il Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd
*Cyflwyniad Theatrig 15-19 oed: Oedran Bl. 10-13*
2il Ysgol Gyfun Glantaf
*Parti Cerdd Dant (Deusain): dan 19 oed (D)*
3ydd Ysgol Gyfun St Cyres
*Dawns: Oedran Bl. 7, 8 a 9 (Y.U.)*
1af Parti Emyr, Ysgol Gyfun Plasmawr

***Parhad o'r rhestr ar dud. 8***

## Patrwm Newydd ar Gyfer Papur Bro Hynaf a Phwysicaf Cymru

Rhai amharod iawn ydym ni'r Cymry, fel arfer, i frolio'n hunain. Ond ambell dro, mae'n werth gwneud. Dyma rai pethau y gellir eu brolio ynghylch *Y Dinesydd*:

- Dyma bapur bro hynaf Cymru, a arloesodd y ffordd yn 1973 ar gyfer cnwd o bapurau ar hyd a lled y wlad sydd wedi cyfrannu'n helaeth tuag at gynnal y diwylliant Cymraeg a'r arfer o ddarllen Cymraeg.
- Nid yn unig y mae'r *Dinesydd* yn bapur bro, ond y mae hefyd yn bapur prifddinas. Mae ganddo swyddogaeth allweddol, felly, wrth hybu'r iaith mewn man strategol bwysig yn genedlaethol.
- Mae'n anodd gorbwysleisio cyfraniad *Y Dinesydd* dros y chwarter canrif a aeth heibio tuag at hybu'r Gymraeg yng Nghaerdydd a chydlynu bywyd Cymraeg y ddinas.
- Llwyddodd timau ymroddgar o wirfoddolwyr i gyhoeddi'r papur yn rheolaidd, yn bur raenus, a heb fynd i ddyled ariannol, am dros chwarter canrif a thrwy bob math o anawsterau. Cryn gamp, a dweud y lleiaf!
- Erbyn hyn rydym yn cynhyrchu ac yn dosbarthu **3,000 o gopïau** o'r *Dinesydd* bob mis. Y mae cylchrediad *Y Dinesydd* yn uwch o dipyn na'r papurau bro eraill, ac y mae'n cymharu'n ffafriol iawn â'r papurau a'r cylchgronau cenedlaethol Cymraeg. Ystyr hyn yw bod *Y Dinesydd* yn cyrraedd mwy o ddarllenwyr na bron yr un cyhoeddiad Cymraeg arall.

### Cyfle i Ymuno â'r Tîm

Mae degau o wirfoddolwyr ar draws y ddinas yn cynorthwyo'n fisol tuag at gynhyrchu'r papur hwn: gohebwyr sy'n casglu newyddion, colofnwyr cyson, tîm golygyddol, teipyddion, casglydd hysbysebion, trysorydd, gwefeistr, aelodau pwyllgorau a dosbarthwyr mân a mawr.

Rydym bob amser yn chwilio am waed newydd i gynorthwyo gyda phob agwedd ar waith y papur. Mae hynny'n arbennig o wir ar hyn o bryd mewn meysydd golygyddol ac ysgrifenyddol. Bu tipyn o newid yn y trefniadau golygyddol a gweinyddol tua saith mlynedd yn ôl, a daeth i'r amlwg yn ddiweddar bod nifer o'r rhai a fu wrthi gyda'r gwaith hwnnw dros y blynyddoedd diwethaf am gael eu rhyddhau o'u dyletswyddau am wahanol resymau.

Teimlad Pwyllgor *Y Dinesydd* a'r Cyfarfod Blynyddol diwethaf oedd y dylid troi'r newidiadau golygyddol anorfod hyn yn fantais trwy sefydlu patrwm o 'olygyddion y mis', fel sy'n digwydd yn achos llawer o'r papurau bro eraill, yn hytrach na chael tîm golygyddol bach sefydlog i baratoi pob rhifyn, fel sy'n digwydd yn bresennol yn achos *Y Dinesydd*. Y gobaith yw y bydd patrwm newydd o'r fath yn gwella'r papur trwy ychwanegu at yr amrywiaeth wrth dynnu ar gylch ehangach o olygyddion, tra ar yr un pryd yn ysgafnhau'r baich golygyddol sydd ar hyn o bryd yn syrthio ar ysgwyddau ychydig o bobl.

Mae rhai eisoes wedi cytuno i fod yn rhan o'r patrwm newydd. Ond yr ydym yn chwilio am ragor o wirfoddolwyr, fel bod digon o dimoedd o olygyddion misol ar gael. Y nod yw mai tua unwaith y flwyddyn y bydd disgwyl i bob tîm weithredu. **Felly, pe byddech â diddordeb mewn cyfrannu at y wedd bwysig hon ar fywyd Cymraeg Caerdydd, trwy fod yn un o dîm golygyddol misol o ddau neu dri pherson, cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: (029) 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).**

Rydym hefyd yn chwilio rhag blaen am Ysgrifennydd newydd ar gyfer Pwyllgor *Y Dinesydd*, i drefnu'r cyfarfodydd (achlysurol!) a chadw cofnodion, ynghyd â phobl sydd â sgiliau cyfrifiadurol i ymuno â'n tîm o deipyddion sy'n teipio unrhyw gyfraniadau i'r papur sy'n dod mewn llawysgrif. Eto, pe bai rhywun yn barod i ymgymryd â'r gwaith hwn, neu gynorthwyo gydag unrhyw agwedd arall ar waith y papur, megis y dosbarthu, dylent gysylltu â Dr E. Wyn James.

# Y Dinesydd

**Mai/Mehefin 2000, Rhif 256.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Gorff./Awst at un o'r gohebwyr canlynol erbyn 29 Mehefin:**

**Newyddion y Fro:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Road, Penarth (Ffôn: 20708253)
**Newyddion o'r Eglwysi:** Y Parchg Gwilym Dafydd, 4 Coryton Rise, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 20626811)
**Newyddion Ysgol Glantaf:** Mrs S. E. Williams, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Heol y Bont, Ystum Taf, Caerdydd (Ffôn: 20333090).
**Newyddion Ysgol Plasmawr:** Ms Rhian Morgan, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Ffordd Pentre-baen, Tyllgoed, Caerdydd (Ffôn: 20405499).
**Newyddion Chwaraeon:** Mr Thomas Davies, 41 Highfields, Caerdydd (Ffôn/Ffacs: 20564540).

**Anfonwch unrhyw ymholiadau golygyddol a newyddion cyffredinol at:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (20628754) **neu** Mrs Linda Thomas, 3 Llwynfedw Gdns, Llwynbedw, Caerdydd (20693302).

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 20842929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur. Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-20418270; E-bost: MennaGwyn@aol.com)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN CYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................

Cyfeiriad: ..............................

.............................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## FFURFLEN TANYSGRIFIO

Amgaeaf danysgrifiad blwyddyn o £15 er mwyn derbyn *Y Dinesydd* drwy'r post yn rheolaidd.

Enw: ..............................

Cyfeiriad: ..............................


.............................. Cod Post: ..................

Rhif Ffôn: ..............................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindra, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 16** **Mai/Mehefin 2000**



**Ar Draws**

1. 'Calfaria fryn yw'r unig sail ___ ___' (W.W.) (7,4)
7. Erys gwg rywsut am y canol (7)
9. Symud y rhwystrau mewn rhagoriaeth (4)
11. Morglawdd ar ddôl (5)
12. "Ac nid cyn i'r _____ grocni ei law Y deffrôdd y breuddwydiwr bach' (Nantlais) (6)
14. Yn meddu ar fath o bysgodyn yn Lloegr ac ynni eog o'i gwmpas (2,9)
18. Rhoi'ch llaw yn eich poced a lluchio gwair cyn dim (6)
20. Cornel i ddim i ffoi (5)
22. 'Oblegid ein Duw ni sydd dân ___ ' (Hebreaid) (4)
23. Rhannau o'r corff yn perthyn i gymdeithas (7)
24. Aderyn lliw'r môr ar lan yr afon (4, 1, 6)

**I Lawr**

2. Propaganda heb y 'pop' yn troi'n broffwydo (7)
3. Ym mha fis y daw storm? (4)
4. Cenadwri mewn Saesneg esgobol (5)
5. Llesg ag enw arall (5)
6. Creadur bach yn gallu troi olwyn (5)
8. Gwilym, dacw lid yn y golwg (8)
10. Heol i fynwes bardd (8)
13. Golchir ar yn ail ystlys (3)
15. Dwg ofal wedi'i stiwio i'r drefedigaeth (7)
16. Saib i ddathlu ar y We efallai (5)
17. Car tywyll mewn dŵr mawr (5)
19. Sawr yn codi o'r cawl gorau (5)
21. Dillad heb ddechrau ymdrybaeddu mewn mwd (4)

**Atebion Croesair 15**

**Ar Draws:** 1. Ystad; 4. Godidog; 8. Oes lygad a'th wêl; 10. Nofio; 11. Rhonc; 12. Tawe; 16. Abaty; 17. Ein plant yn byw; 19. Ddiwniad; 20. Un dydd.

**I Lawr:** 1. Yno pob rhyw gerdd; 2. Tes; 3. Drysni; 4. Glanfa; 5. Diacon; 6. Diwydiant; 7. Gwlad, Benllywydd; 9. Llangernyw; 13. Pam lai; 14. Hapnod; 15. Cymylu; 18 Bad.

**Croesair Rhif 15**
Derbyniwyd pum ymgais yn unig y tro hwn a thair ohonynt yn gywir. Danfonir y tocyn llyfrau at Heledd Hall, 14 Wyndham Road, Treganna. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Margaret Jones, Rhiwbina a Megan Griffiths, Llysfaen.

**Cystadleuaeth Mai/Mehefin 2000**: Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Rhian Williams, 56 Clearwater Way, Glan-y-llyn (*Lakeside*), Caerdydd CF2 6DJ, erbyn 29 Mehefin.

Cofiwch ymweld â safle'r *Dinesydd* ar y We:
**http://www.dinesydd.uklinux.net/**

## Calendr y Dinesydd

**Mercher, 21 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Ann Saer, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Llun, 3 Gorffennaf**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty'r Thistle (Gwesty'r Parc), am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Cysylltwch â Tony Couch (Ffôn: 2075 3625).
**Mercher, 5 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Cyfarfod Blynyddol a The Mefus, yn neuadd Eglwys Minny Street am 2 p.m.
**Sadwrn, 8 Gorffennaf**
Ffair Haf Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.
**Gwener, 14 Gorffennaf**
Helfa Drysor yn cychwyn o Ysgol Glantaf am 6.00 p.m. Yr elw at Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro 2001.
**Iau, 14 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: Canu Mawl ar yr Ais, Eglwys y Tabernacl, am 7.30 p.m.
**Llun, 2 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty'r Thistle (Gwesty'r Parc), am 7.00 p.m. ar gyfer 7.30 p.m. Cysylltwch â Tony Couch (Ffôn: 2075 3625).
**Sul, 8 Hydref**
Cymanfa Ganu yn Neuadd Dewi Sant am 6.30 p.m. Yr elw at Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro 2001.

*Er mwyn cynnwys digwyddiadau yn y Calendr, anfonwch y manylion at: Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## Llongyfarchiadau

- i Owain Jones, 23 oed o Gaerdydd a etholwyd yn Llywydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr mewn cynhadledd a gynhaliwyd ym Mlackpool ddechrau Ebrill. Bu'n fyfyriwr ym Mhrifysgol Warwick;
- i Esther Eckley, cyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf a raddiodd ym Mhrifysgol Bournemouth y llynedd, ar gael ei phenodi i swydd gyda Chwmni Cysylltiadau Cyhoeddus Equinox yn y Paréd, Caerdydd;
- i Tanni Grey-Tompson, yr athletwraig gadair-olwynion, ar dderbyn yr OBE ym Mhalas Buckingham ar 28 Ebrill. Pob hwyl iddi yn ei pharatoadau i gystadlu yn Sydney yn yr haf;
- i Siân a Gari Lewis ar enedigaeth eu mab Zac ar 30 Ebrill, ŵyr i Alan a Catrin Jobbins, Yr Eglwys Newydd;
- i Elis Owen ar ei benodi'n Rheolwr HTV Cymru yn lle Menna Richards a ddechreuodd ar ei gwaith fel Rheolwr BBC Cymru yn Chwefror;
- i Gwyneth Lewis ar ennill cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn Cyngor y Celfyddydau â'i chyfrol, *Y Llofrudd Iaith*;
- i Grahame Davies ar ennill Gwobr Harri Webb am ei gyfrol, *Adennill Tir*. Bydd Grahame Davies a Gareth Miles yn trafod cefndir y ddadl rhwng W. J. Gruffydd a Saunders Lewis ar dudalennau'r *Llenor* yn 1927, mewn sesiwn yn enw'r cylchgrawn *Taliesin* yn yr Iglw ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli, fore Gwener, 11 Awst, am 11 a.m. Cadeirydd y sesiwn fydd Dr Harri Pritchard Jones, Cadeirydd yr Academi Gymreig;
- i Owen Martell ar ennill Cystadleuaeth Dwy Fil Gwasg Gomer gyda'i nofel, *Cadw Dy Ffydd*;
- i Hannah Thomas, cyn-ddisgybl yn Ysgol Glantaf, ar gael ei phenodi'n Swyddog Gwybodaeth i Cadw. Cyn ymuno â Chadw, bu'n gweithio i gwmni Cambrensis;
- i Rhys Angell Jones a Lowri Mai Roberts ar eu priodas ym Methesda'r Wyddgrug. Mae Rhys yn athro yn Ysgol Uwchradd Treorci a Lowri newydd ennill PhD yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd.

## Barbeciw'r Blaid

Cynhelir Barbeciw ar aelwyd John a Mali Rowlands, 16 Bishops Road, Yr Eglwys Newydd nos Sadwrn, 8 Gorffennaf, o 6 pm ymlaen. Tocynnau gan Nans Couch (2075 3625) neu Catrin Jobbins (2062 3275). Yr elw at Blaid Cymru.

## Barbeciw'r Eglwys

Cynhelir Barbeciw Blynyddol yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg nos Wener, 30 Mehefin, o 6pm ymlaen ym Mharc Porthceri, Y Barri. Croeso cynnes i bawb.

## Gair o Ddiolch

Dymuna Mair, Emyr a Heddwen ddiolch i'r rhai hynny a fu'n ymweld â Bill (Bow Street) tra oedd yn glaf yn Ysbyty'r Mynydd Bychan, ac am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt.

## Cydymdeimlwn

- â theulu Mrs June Edwards, gweddw'r Dr Raymond Edwards, cyn-Brifathro Coleg Cerdd a Drama Caerdydd, a fu farw 10 Ebrill;
- â Rhian Owen, Radur, a'i theulu ar farwolaeth ei mam Hannah Owen, gynt o Brestatyn a Llanrug, yn Ysbyty Lansdowne Caerdydd ar 22 Ebrill;
- â theulu'r diweddar Barch Haydn Thomas a fu farw ar 28 Ebrill yn Holme Towers, Penarth;
- â Siân, chwaer y diweddar Hefin Wyn Edwards, Caerfyrddin (gynt o Lanuwchllyn) a fu farw'n sydyn ar ei ffordd i wylio Morgannwg yn chwarae criced. Bu'r angladd ar 20 Mai yng Nghapel y Priordy, Caerfyrddin ac yna yn yr Hen Gapel yn Llanuwchllyn;
- â Mrs Kathleen Wood ar golli ei mam, Mrs Elizabeth (Bessie) Williams, Porthmadog;
- â Mrs Katherine Howe ar golli ei chwaer, Mrs Eileen Clark, Pontypridd;
- â Mrs Beryl Roberts ar golli ei chwaer, Mrs Doris Pughe, a fu'n ffermio Pontymeibion, Llansilin, hen gartref y bardd enwog, Huw Morus;
- â Mrs Janice Jones, Radur, ym marwolaeth ei mam, Mrs Phyllis Thomas.

## Gair i Gall

'Hwyrach y daw ffiasgo *Cân i Gymru* i gynrychioli rhywbeth ehangach am y ffordd y mae'r cyfryngau yng Nghymru yn trin eu gwylwyr a'u gwrandawyr . . . Un symptom o'r agwedd sarhaus hon at y gynulleidfa oedd y sgandal yma. Mae'r symptomau eraill i'w gweld ymhobman. Cynhyrchwyr dosbarth canol addysgedig yn defnyddio geiriau Saesneg di-angen am eu bod yn tybio fod eu gwylwyr yn rhy dwp i ddeall rhai Cymraeg. Symleiddio iaith bwletinau Radio Cymru y tu hwnt i bob rheswm a banio ffurfiau cywir ('yr Unol Daleithiau') er mwyn defnyddio rhai anghywir ('America') i hwyluso pethau i'r gwrandawyr truain. Rhaglenni ffordd-o-fyw a chwisiau moronig yn lle rhaglenni sy'n trin y gynulleidfa fel pobl sy'n meddu ar ymennydd.

'Y diwrnod o'r blaen bûm yn dal i fyny ar y newyddion trwy ddarllen y papur bro. Ac fe'm trawodd: does yma ddim ymgais i symleiddio'r iaith a gosod gair Saesneg rhag ofn i'r un Cymraeg greu penbleth. Does yna ddim ymgais i ddefnyddio ffurfiau llafar berfau er mwyn eglurder. Dydw i ddim yn dadlau fod y papurau bro yn defnyddio patrwm o Gymraeg ystwyth y dylid ei efelychu ym mhob cyfrwng. Ond y mae'r papurau bro yn deall yr un wers a ddylai gael ei dysgu gan y cyfryngau yn wyneb ffiasgo *Cân i Gymru* - dyw'r bobl ddim yn dwp!'

*- Kate Crockett, yn **Barn**, Ebrill 2000.*

## Ysbyty Plant Cenedlaethol i Gymru

Yn ddiweddar lansiwyd apêl am 3.7 miliwn o bunnoedd er mwyn dechrau ar y gwaith o godi Ysbyty Plant Cenedlaethol i Gymru ar safle Ysbyty'r Brifysgol yn y Mynydd Bychan. Yn ôl yr awdurdodau meddygol, Cymru yw'r unig wlad Ewropeaidd sy heb ysbyty wedi ei godi'n arbennig i drin afiechydon plant.

## Seiclo i Godi Arian

Dymuna Rhys Owen, Cyncoed, ddiolch i bawb a'i cefnogodd ef a Jason Lugg yn ariannol adeg y Pasg, pan feiciodd y ddau o Gaergybi i Gaerdydd. Llwyddwyd i godi £1,000 at Ymchwil yr Arennau. Cyflwynwyd y siec i KRVF ddiwedd mis Mai.

## Cân a Dawns yn Rhiwbina

Trefnodd Capel Bethel, Rhiwbina gyngerdd i godi arian at Gronfa Cymorth Cristnogol yn y capel nos Fercher, 3 Mai. Côr Merched Canna dan arweiniad Delyth Medi oedd yn cadw'r cyngerdd a chafwyd noson o safon uchel.

Cynhelir Twmpath Dawns Gŵyl Ifan dan arweiniad Gwilym Roberts nos Sadwrn, 24 Mehefin, yn Festri Eglwys yr Holl Saint, Rhiwbina rhwng 8.00 a 11.30. Trefnir y noson gan Bwyllgor Codi Arian Rhiwbina tuag at gronfa Eisteddfod yr Urdd, Caerdydd a'r Fro 2001. Am docynnau, ffoniwch Caerdydd 2069 3254.

Casglwyd £300 ar ddiwedd Cymanfa Ganu Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina yng Nghapel Beulah tuag at gronfa Eisteddfod yr Urdd 2001 a daeth £150 i law gan grŵp o fysgwyr sy'n galw eu hunain yn "Boyce Zone". Hefyd yn ystod Gŵyl y Cyhoeddi cafwyd tua £17,000 o ganlyniad i gynnal osciwn a chinio mawreddog yn y Bae. Mae nifer o bwyllgorau codi arian wedi eu sefydlu drwy'r Ddinas a'r Fro i sicrhau llwyddiant ariannol yr Ŵyl.

## Swyddogion Newydd yn Rhiwbina

Robin Jones, Radur oedd y siaradwr cyn cynnal Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina ar 15 Mai a chafwyd sgwrs ddifyr ganddo am *Y Dinesydd*. Yna, yn y cyfarfod a ddilynodd y sgwrs, etholwyd swyddogion newydd ar gyfer 2000/2001 - **Cadeirydd:** Rhys Morgan; **Is-Gadeirydd:** Iwan Jones; **Ysgrifennydd:** Beryl Jenkins; **Trysorydd:** Hazel Doull; a Mair Dyfri, Marian Jenkins, Marian Davies a Mary Pryce i fod yn aelodau o'r Pwyllgor. Diolchwyd i Haydn Jones y cyn-Ysgrifennydd am ei waith caled dros gyfnod o saith mlynedd.

## Magwrfa Meiri

Fel y daeth cyfnod Siôn Jobbins gynt o'r Eglwys Newydd i ben fel Maer Aberystwyth, daeth Ioan Matthews yn Faer Caerfyrddin. Enillodd radd ym Mhrifysgol Caerdydd ac erbyn hyn mae'n bennaeth yr Adran Hanes yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Lwc da iddo yntau.

Maer newydd tre Aberteifi yw Trevor Griffiths, cyn-ddeintydd ac yn enedigol o Gaerdydd. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Howardian ac yn aelod o Aelwyd yr Urdd, Caerdydd. Llongyfarchiadau iddo.

## Ymuno ag 'Eileen'

Mae stâd newydd o dai yn cael ei godi ym mhentref Rhydeglwys yn yr opera sebon 'Eileen' ar Radio Cymru, ac y mae'r BBC yn chwilio am actorion newydd o bob rhan o Gymru i fod yn gymdogion newydd i Eileen a'i merch, Sioned. Os oes gennych ddiddordeb mewn actio yn yr opera sebon, anfonwch gasét ohonoch eich hun, a'ch CV, at Nerys Jones, Swyddfa Eileen, Radio Cymru, BBC, Bryn Meirion, Bangor, Gwynedd LL57 2BY.

## Tafodau Chwim

Rhodri Owen, Pontcanna yw gohebydd cyfres newydd y BBC, *Hard Cash*, lle bydd e'n siarad â gwahanol bobl sy wedi eu twyllo gan werthwyr chwim eu tafodau a chwmnïau benthyg arian. Dechreuodd ei yrfa ym myd y teledu fel cyflwynydd rhaglenni plant ar S4C.

## Deryk yn Cyfrif

Cyn-Gyfarwyddwr Rhaglenni S4C, Deryk Williams o Gaerdydd ond yn wreiddiol o Gricieth, fydd yn gyfrifol yn bennaf am ofalu am y wedd ddwyieithog wrth baratoi at gynnal y Cyfrifiad nesaf. Bydd hefyd yn ddolen gyswllt rhwng y Cynulliad a Phencadlys y Cyfrifiad yng Nghymru.

## Actorion Caerdydd ar Lwyfan y Byd

Llongyfarchiadau i Matthew Rhys yr actor ar ei berfformiadau yn y ddrama *The Graduate* yn Theatr y Gielgud yn Llundain gyda'r actores Kathleen Turner. Roedd y ddrama i fod yn y theatr am 12 wythnos ond oherwydd y galw am docynnau ymestynnir y cyfnod tan ddiwedd Gorffennaf. Eisoes derbyniwyd tua dwy filiwn o bunnoedd am docynnau ar gyfer y ddrama.

Un arall o actorion enwog Caerdydd yw Ioan Gruffydd ac mae newydd orffen ffilmio ei ran yn y ffilm *102 Dalmations*. Yna ar ddiwedd mis Mai dechreuodd weithio ar ddwy bennod dwy awr yr un o'r gyfres boblogaidd *Hornblower*. Llongyfarchiadau iddo ef hefyd am osod Cymru ar y map!

## Y Gyntaf yn Gymraeg?

Mae Carr Sheppards Crosthwaite, y rheolwyr buddsoddi a brocerwyr stoc, wedi cyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r daflen sy'n disgrifio eu gwasanaethau ar gyfer buddsoddwyr preifat. Dywed Dafydd Hampson-Jones, rheolwr swyddfa Caerdydd y cwmni, "Rwy'n credu mai ni yw'r unig reolwyr buddsoddi o bwys sydd wedi ceisio ymateb i anghenion ei gwsmeriaid Cymraeg fel hyn." Gellir cysylltu â Dafydd Hampson-Jones ar 029-2039 4021.

## Ar y We yn Gymraeg

Mae cwmni o Gaerdydd wedi lansio gwasanaeth ar-lein cyflawn yn y Gymraeg. Mae cwmni NetCymraeg Cyf. yn cynnig cyfeiriadau e-bost a safleoedd gwe cyfochrog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gellwch danysgrifio am ddim drwy ymweld â'i safle: www.netcymraeg.com. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Steffan Trefor Wiliam neu Richard G. Lewis ar 029-2023 4573 neu gwein@netcymraeg.co.uk, neu ysgrifennwch at NetCymraeg Cyf., Canolfan Fasnach y Byd, Arena Ryngwladol Caerdydd, Mary Ann St., Caerdydd CF1 2EQ.

## Lle Da i Siopa

Mewn astudiaeth gan gwmni annibynnol mae Caerdydd wedi ennill y nawfed safle am yr ail flwyddyn yn olynol am y lle gorau i siopa ym Mhrydain. Y West End yn Llundain sy ar ben y rhestr ac yna Glasgow, Nottingham, Leeds, Birmingham, Manceinion, Caer, Caerlŷr ac yna Caerdydd.

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
I'R CYHOEDDIAD HWN
Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT...
0845 6076070
Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

# Newyddion o'r Eglwysi... dan ofal Gwilym Dafydd

## EGLWYS Y CRWYS

Cafwyd cyfnod digon prysur yn Eglwys y Crwys o ganol mis bach hyd ddiwedd mis Mawrth. Bu'r theatr yn lleoliad i nifer o weithgareddau poblogaidd. Defnyddiwyd y cyfleusterau theatrig gan Gymdeithas Ddrama Prifysgol Caerdydd. Llwyfannwyd *Twelfth Night* dros gyfnod o wythnos a chafwyd tŷ llawn ym mhob perfformiad.

Nos Lun, 6 Mawrth, daeth Ena o'r stiwdio deledu i'r theatr, ac o flaen cynulleidfa deilwng cafodd gyfle i arddangos ei dawn i greu prydau o fwyd blasus. Fe'i gwahoddwyd i'r capel gan y Grŵp Merched, a chyflwynwyd yr elw a wnaed ar y noson i'r ymchwil i glefyd y galon.

Nos Lun a nos Fawrth, 20 a 21 Mawrth, daeth aelodau Eglwys Minny Street i'r theatr i fwynhau noson o ddramâu. Chwaraewyd dwy ddrama: *Tu Hwnt i'r Llenni* gan Eic Davies a *Hollti Blew,* trosiad T. James Jones o *Resounding Tinkle* gan N. J. Simpson. Cynhyrchwyd y naill gan Joye Parry a'r llall gan Menna Gwyn.

Ddydd Mercher, 15 Mawrth, daeth tymor Cylch y Chwiorydd i ben. Miss Eirian Edwards oedd y siaradwraig wadd a chafwyd ganddi brynhawn difyr a dwys yn adrodd ei hanes a'i phrofiadau gwerthfawr ar Ynys Patmos adeg y Pasg 1999.

## EGLWYS ANNIBYNNOL GYMRAEG Y BARRI

Y mae cenhedlaeth ieuengaf yr eglwys wedi bod yn ymateb yn dda i'r tudalen arbennig ar eu cyfer yn *Y Ddolen*, sef bwletin misol yr eglwys. Dangoswyd diddordeb mawr ganddynt mewn cael tudalen i'r ieuenctid yn cynnwys ambell groesair a chwilotair ar themâu beiblaidd.

Daeth tua 20 o blant a phobl ifainc yr Eglwys ynghyd ym Maes Awyr Caerdydd nos Iau, 9 Mawrth, pan drefnwyd noson arbennig ar eu cyfer drwy garedigrwydd y Parchg Duncan Ballentyne, Caplan newydd y Maes Awyr. Cafwyd noson hwylus dros ben yn crwydro o amgylch y Maes Awyr ac yn dysgu am waith y Caplan. Braf oedd cael cwmni plant a gweinidog Bethel, Penarth hefyd. Edrychwn ymlaen at farbeciw blynyddol yr Eglwys ar fferm yr Amelia Trust, taith o gylch y Goleulong ym Mae Caerdydd, y Trip Ysgol Sul a'r Noson Deuluol sydd eisoes wedi eu trefnu ar ein cyfer.

## BETHEL, RHIWBINA

Fe gymerodd aelodau dosbarth iau yr Ysgol Sul ran amlwg yng ngwasanaeth Sul y Blodau. Cafwyd sawl eitem ganddyn nhw a hefyd cafwyd arddangosfa o'u gwaith yn yr Ysgol Sul. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynodd y Gweinidog, y Parchg Evan Morgan, dystysgrifau a bathodynnau i'r plant fu'n casglu at y Genhadaeth Dramor y llynedd.

Clywyd tair iaith yn ystod priodas ym Methel ar 8 Ebrill. Priododd Veronica Jones, sy'n hanu o'r Gaiman yn y Wladfa, a Gareth Kiff, trefnydd Menter Iaith Caerdydd. Pob dymuniad da i'r ddau.

Croesawyd cynrychiolwyr o holl eglwysi Caerdydd i Fethel brynhawn Gwener, 3 Mawrth ar gyfer Gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd. Arweinydd y gwasanaeth oedd Mrs Mair Dyfri Jones, gyda'r Dr Elin Jones yn annerch a Mrs Eilonwy Jones wrth yr organ.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theulu **Mrs Dilys Gunston Jones** a fu farw Sul y Pasg.

Croesawn yn gynnes **Siân Elin Parry** (Treganna) a ddaeth yn aelod atom ddechrau mis Mawrth.

Croeso cynnes hefyd i **Catrin Megan**, merch Elizabeth a James Beynon (Llanisien). Ganed Catrin ar 20 Ionawr eleni, ac mewn oedfa gymun arbennig fore Sul y Pasg ein braint oedd cael tystio i'w bedydd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i bump o ddiaconiaid newydd: Huw Eirug, Howard Goodfellow, Mrs Heulwen Jones, Mrs Elinor Patchell a Mrs Ann Saer.

## TABERNACL, CAERDYDD

Ddiwedd mis Mawrth fe gynhaliwyd y Gyngerdd Flynyddol gan Gôr y Tabernacl. Yn y rhan gyntaf cafwyd eitemau gan y côr, y côr adrodd, Robert Nicholls, Elisabeth Stevens, Siriol Williams a Huw Thomas. Yn yr ail ran cafwyd datganiad o *Gloria*, Vivaldi, gan y côr, o dan arweiniad Euros Rhys Evans. Roedd canmol mawr i gerddorfa'r eglwys hefyd. Noson i'w chofio meddai pawb oedd yn bresennol. Gwnaed elw o £200.

Ar y meysydd chwarae, cafodd **Daniel Preece** ei ddewis i fod yn aelod o sgwad rygbi ysgolion Caerdydd dan 12 oed. Mae Daniel hefyd yn gricedwr o fri.

Ddiwedd mis Mawrth croesawyd **Tim a Caroline Trimble** i oedfa'r bore. Mae cysylltiad agos rhwng y ddau genhadwr â'r Tabernacl, a diddorol oedd clywed am eu hanes yn Nepal. Croeso i **Osian**, ail fab i Lowri a Hefin Griffiths; llongyfarchiadau hefyd i un o'n haelodau, **Huw Roberts**, ar ei ddyweddiad â Gwawr Owen, arweinydd Côr Caerdydd.

Trist oedd clywed am farwolaeth **Luned Tudno Jones**, gweddw y diweddar Gwyn Tudno. Roedd yn gyn-aelod o'r Tabernacl, ond wedi ymgartrefu ers blynyddoedd yn Nhrefdraeth. Cydymdeimlwn hefyd â **Helen Preece** a'r teulu ar farwolaeth ei mam. Bu ei mam, Nan Rees, yn wael am gyfnod a dymunwn bob bendith i'r teulu yn eu profedigaeth.

## CYMDEITHAS Y CYMOD yn Cefnogi Ffoaduriaid

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Cymdeithas y Cymod yn Eglwys y Tabernacl ar 27 Mawrth. Diolchwn yn fawr i Eid Ali Ahmed, swyddog polisi Cyngor y Ffoaduriaid Cymru am annerch y cyfarfod hwnnw ac am ddangos i ni sut y gallwn gyfrannu i wella'r sefyllfa anodd y mae dioddefwyr rhyfel ynddi heddiw. Un o Somalia yw Eid, yn un o'r sefydlwyr y Cyngor a ddechreuwyd gan wirfoddolwyr yn 1990. Oddi ar hynny, enillodd Cyngor y Ffoaduriaid gefnogaeth gan y Cenhedloedd Unedig, y Llywodraeth a sefydliadau fel Oxfam ac Amnest Rhyngwladol.

Lleiafrif braidd yn anweledig yw ffoaduriaid yng Nhymru hyd yn hyn; ond bydd newid mawr yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf, gan fod niferoedd mawr o bobl a ddaeth i Lundain a Chaint yn cael eu gwasgaru dros Ynys Brydain. Bydd y rhan fwyaf o'r rhai sy'n dod i Gymru yn ymgartrefu yng Nghaerdydd, Casnewydd, Abertawe a Wrecsam a bydd angen mawr am dai. Ond yn fwy hyd yn oed na'r anghenion corfforol, bydd angen croeso arnynt, i wneud iddynt deimlo'n saff ac yn glyd ar ôl eu profiadau enbyd.

Mae Cymdeithas y Cymod wedi cytuno i wneud apêl i bobl 'fabwysiadu' rhai ffoaduriaid a rhoi croeso a chyfeillgarwch iddynt. Mae pobl hynod o ddiddorol yn eu plith a gallwn ni ddysgu llawer am sefyllfa'r byd ganddynt wrth ddod yn ffrindiau iddynt a'u cynorthwyo i wella eu sgiliau iaith. Os dymunwch fod yn rhan o'r ymgyrch hon, cysylltwch ag Efa Wulle (2036 0796).

## Cerddor Ifanc y Flwyddyn

Llongyfarchiadau i Selyf Shapey ar ennill cystadleuaeth Sir Caerdydd a Bro Morgannwg ar gyfer 'Cerddor Ifanc y Flwyddyn 2000'. Yn y llun, gwelir Selyf yn Neuadd y Ddinas gydag arweinydd Cerddorfa yr Ysgolion Uwchradd, Mr Charles Maynard, a Phennaeth y Gwasanaeth Cerdd, Mr Mostyn Davies. Mae Selyf hefyd yn flaenwr Cerddorfa Plant Prydain Fawr ac roedd yn canu'r ffidil gyda'r gerddorfa honno yn ystod gwyliau'r Pasg yn Neuadd Fairfield, Croydon. Bydd yn canu'r ffidil yn y Royal Albert Hall, Llundain, yn Proms 2000.



## O Fyd Cerdd

Mae Cwmni Adeiladu'r Principality wedi cyfrannu £1,000 tuag at Gerddorfa Ieuenctid Caerdydd a'r Fro er mwyn hyrwyddo datblygiad cerddorol yr aelodau. Ffurfiwyd y Gerddorfa yn 1975 ac mae 110 o aelodau ynddi ar hyn o bryd.

Bydd Carlo Rizzi, cyfarwyddwr cerddorol presennol Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, yn gadael ym mis Gorffennaf 2001 ar ôl naw mlynedd llwyddiannus iawn gyda'r Cwmni. Dymunwn yn dda iddo.

Mae "Llwyn yr Eos", hen gartref Ivor Novello yn Cowbridge Road East, ar werth. Mae plac ar y wal wrth ddrws y tu ffrynt yn cyhoeddi mai yn y tŷ hwn y ganed Ivor Novello ar 15 Ionawr 1893.

Cyn-reolwr y BBC yng Nghymru, Geraint Talfan Davies, fydd Cadeirydd newydd Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru gan fod Arglwydd Davies, Llandinam yn ymddeol o'r swydd ar ôl pum mlynedd ar hugain o wasanaeth.

## Canmlwyddiant Geni'r Athro D. E. Parry Williams

Ganed yr Athro D. E. Parry Williams gan mlynedd yn ôl yng Nglynnedd a marw yng Nghaerdydd ym Medi 1996. Yn ystod ei oes hir gwnaeth lawer, trwy ei lyfrau a'i gyfraniad ym myd addysg, i symbylu datblygiad cerddoriaeth yng Nghymru.

Cyn troi at gerddoriaeth, graddiodd mewn Cemeg a mynd yn athro yn Ysgol Eglwys Gadeiriol Llandaf ac Ysgol Lewis Pengam cyn ymuno ag Adran Addysg Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Ond roedd ei allu cerddorol eisoes yn amlwg. Daeth dadansodi strwythurau cerddorol yn un o'i brif ddiddordebau, fel y dengys ei lyfr safonol, *Elfennau Cerddoriaeth*. Mae fersiwn Saesneg ohono, *A Music Course for Students*, yn dal yn boblogaidd heddiw.


Yn y tridegau roedd yn un o'r cyntaf i gyfrannu i Raglenni Cerddoriaeth Ysgolion y BBC, ac yn y cyfnod hwnnw hefyd roedd yn organydd ac arweinydd côr Eglwys Pembroke Terrace, Caerdydd.

Yn 1943 fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Cerdd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru, Bangor, ac erbyn iddo ymddeol yr oedd wedi penodi cyfansoddwyr adnabyddus fel Reginald Smith-Brindle, Bernard Rands a William Mathias yn ddarlithwyr ifanc, a datblygu'r Adran i gynnal graddau B.Mus. ac ystod o raddau uwch.

Byddai'n beirniadu'n gyson yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Llangollen. Ef oedd Cadeirydd cyntaf Pwyllgor Cerdd Cyngor y Celfyddydau, ac roedd yn aelod o Fwrdd Gwasg y Brifysgol a'r panel a luniodd *Termau Cerddoriaeth*.

Yn ystod ei flynyddoedd olaf, ei fwynhad mawr fyddai cofio am lwyddiant ei fyfyrwyr, yn athrawon mewn ysgolion ac adrannau cerdd ar hyd a lled y byd, yn gyfansoddwyr, yn ddarlledwyr ac yn arweinyddion.

Mae ei unig ferch, Ann Lloyd Jones, a'i phriod Gareth, yn byw yn ardal Llandaf, ac mae'n gadael tair wyres hefyd, Ruth, Ceri a Rhiannon.



*Llun yw hwn o Gôr Coleg y Brifysgol yng Nghaerdydd a dynnwyd tua 1938, a diolch i Mrs Iola Glynne Jones am ganiatáu i ni ei gynnwys. Yr Athro David Evans, pennaeth yr Adran Gerdd, yw'r seithfed o'r chwith yn y rhes flaen, a J. Morgan Lloyd yw'r degfed o'r chwith; Mrs David Evans yw'r chweched o'r dde, a D. E. Parry Williams y pedwerydd o'r dde yn y rhes flaen. Allwch chi enwi rhai o'r lleill?*

# YSGOL GLANTAF

## Blas ar Ffrainc

Yn ystod hanner tymor y gwanwyn, aeth myfyrwyr y chweched dosbarth sy'n astudio Ffrangeg ar daith i Baris. Bwriad y trip oedd rhoi cyfle i'r disgyblion gymdeithasu trwy gyfrwng y Ffrangeg, a chael blas ar y ffordd o fyw yn Ffrainc.

Arhosom mewn hostel ieuenctid moethus ar gyffiniau'r ddinas. Darparwyd bwyd a llety o'r ansawdd uchaf, a phrofiad gwerthfawr oedd cael cwrdd â chynifer o bobl ifainc a ddaeth i aros yn y gwersyll o bob cwr o'r byd.



Bob dydd fe aethom i ymweld â Pharis ei hun. Cawsom gyfle i ddringo Tŵr Eiffel, i siopa yn y Champs Elysées, yn ogystal ag ymweld â Sacré Coeur a gorsaf radio 'France 1'. Un o'r profiadau mwyaf cyffrous oedd cael ein tywys o amgylch y 'Stade de France', a chawsom gyfle i redeg allan o'r twnnel i'r maes rygbi.

Gyda'r nos roedd digonedd o weithgareddau yn yr hostel i'n diddanu, ond ambell noson aethom i'r sinemâu a'r caffis lleol yn y 'Place d'Italie'. Dyma oedd y profiad mwyaf gwerthfawr i ni fel disgyblion yn astudio'r Ffrangeg gan ei fod yn gyfle i ymarfer ein hiaith lafar mewn awyrgylch gwbl Ffrengig.

Rwy'n siŵr y cytuna pawb a fu'n ddigon ffodus i ddod ar y daith, mai wythnos arbennig iawn ydoedd; nid yn unig o safbwynt addysgiadol, ond hefyd, am i'r bwlch rhwng Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 gael ei lenwi wrth i ni gymdeithasu a mwynhau gyda'n gilydd. Gobeithio y cawn gyfle i ddychwelyd i Baris y flwyddyn nesaf.

**Jenny Heap**

## Glantaf yn Glanllyn

Ar ôl taith o bum awr mewn bws i fyny trwy ganolbarth mynyddig Cymru ar hyd heolydd troellog di-ddiwedd, roedd gwersyll Glan-llyn i'w weld yn ddigon cyfforddus; ond doedd y tywydd ddim yn rhy groesawgar.

Y noson gyntaf bu'r athrawon yn trio ein perswadio fod gwers yn angenrheidiol! Ac, a dweud y gwir, roedd dysgu am dirffurfiau, afonydd a'u hachosion yn eithaf diddorol a phrofwyd hynny hefyd yn y gwaith maes ar afon Lliw ddiwrnod yn ddiweddarach.

Doedd y syniad fy mod i a'm ffrindiau yn mynd i orfod mentro i mewn i afon rewllyd a hithau'n tresio bwrw glaw ddim yn apelio, ond rhywsut fe wnaeth yr athrawon ein perswadio ni i wneud hynny a hwyl yw'r unig air i ddisgrifio'r profiad. Roedd rhaid mesur dyfnder, cyflymder, graddiant a llwyth afon - cymerodd hyn tua dwy awr i'w gyflawni - trwy fentro i mewn i afon a oedd yn cario'r disgyblion hanner can metr i lawr cwrs yr afon. Ar un orsaf yn yr afon roedd yn rhaid i ni beidio â gwlychu ein traed oherwydd bod yr afon yn fyrlymus. Roedd blinder wedi ein llethu erbyn hynny ac rwy'n meddwl fod hyd yn oed yr athrawon yn falch o weld yr antur honno yn dod i ben.

Roedd y diwrnod nesaf, dydd Mercher, yn un arbennig i ni i gyd. Er mwyn astudio rhewlifiant yn drylwyr roedd rhaid cymryd y cyfle i ymweld â Chwm Idwal. Roedd y trec i fyny'r mynydd yn un a oedd yn peri trafferthion i rai, gan gynnwys fi, ond gwefreiddiol oedd y gair a ddewisodd pawb i ddisgrifio'r olygfa pan gyrhaeddom ni'r peiran. Roedd hi'n pigo bwrw glaw a'r gwynt yn chwythu'n gryf ond doedd y tywydd garw ddim yn gallu lleihau'r wefr o weld yr olygfa odidog hon. Ar y cyfan roedd y dysgu'n llawn hwyl a ninnau'n mwynhau pob eiliad o'r profiad.



*Cwm Idwal - Peiran Rhewlifol*

Y trydydd diwrnod, aethom i Wrecsam i astudio gwaith trefol. Dyma esgus i lawer fynd i siopa a chael bwyd ym McDonalds. Er hynny roedd llawer o waith wedi ei gyflawni a chawsom lawer o hwyl wrth ddefnyddio holiaduron. Ond yng nghefn ein meddyliau roedd pawb yn cofio mai'r diwrnod wedyn oedd ein diwrnod olaf ni ac y byddem yn gweld eisiau Glan-llyn a'i staff cyfeillgar.

Roedd pacio yn y bore yn anodd i rai. Roedd fel petai mwy i'w bacio wrth fynd adre nag wrth ddod, ac roedd llawer o'r bagiau yn gwrthod cau! Bu'r brecwast olaf yn un llawn diolchiadau a seremoni yn cynnwys y 'poser' gorau. Tawelodd y bws yn eithaf sydyn oherwydd blinder, ac unwaith y cyrhaeddom adref, er yr hwyl ar ein cwrs daearyddiaeth, roedd gweld ein gwelyau yn fendith fawr i ni i gyd!

**Sara Williams**

## Llwyddiannau yn yr 'U.K. Intermediate Maths Challenge 2000'

**Tystysgrifau Aur**

Jac Nicol (bl 10) - y gorau yn yr ysgol
Siôn Wright (bl 11)

**Tystysgrifau Arian**

| | |
|---|---|
| Elian Jones (bl 11) | Llion Marc (bl 11) |
| Paul Gould (bl 11) | Bethan Thomas (bl 10) |
| David Walsh (bl 10) | Dafydd Franklin (bl 9) |
| Mathew Daniel (bl 11) | Gethin James (bl 10) |
| Rhiannon Evans (bl 11) | |

**Tystysgrifau Efydd**

| | |
|---|---|
| Huw Tyler (bl 10) | Sally Jennings (bl 10) |
| Iestyn Shapey (bl 11) | Jonathan Tomos (bl 9) |
| Elin Burns (bl 11) | Bethan Evans (bl 10) |
| Michelle Williams (bl 11) | Luke Morgan (bl 10) |
| Rhodri Owen-Jones (bl 10) | Aled Evans (bl 11) |
| Benjamin Phillips (bl 11) | Carys Jones (bl 10) |

## Swyddogion Glantaf

Llongyfarchiadau i Dafydd Elis a Jenny Heap ar gael eu hethol yn brif swyddogion Glantaf. Y dirprwy brif swyddogion yw Gareth Schumack a Catrin James.

# YSGOL PLASMAWR

## TAITH FFRAINC

Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth deugain o ddisgyblion Blwyddyn 8 i Normandi. Ymwelwyd â phorthladd Honfleur, Tapestri Bayeux, Amgueddfa "D-day" yn Arromanches, yn ogystal â'r traethau enwog a chwaraeodd ran allweddol yn ystod yr ail ryfel byd. Gan ein bod mewn gwlad sy'n nodedig am ei bwyd a diod, aethom i ymweld â fferm seidr a ffatri gaws gan gymryd y cyfle i flasu ac i brynu'r danteithion. Ar ôl tridiau gwych yn Normandi aethom yn ein blaenau i Baris a threulio'r diwrnod yn Disneyland. Bu'r daith yn un llwyddiannus a chafodd y disgyblion ddigon o gyfle i roi eu Ffrangeg ar waith.

## TAITH DAEARYDDIAETH

Aeth disgyblion Blwyddyn 10 i wneud gwaith maes a threfol yn ardal Llanuwchllyn a'r cyffiniau, gan aros yng Ngwersyll yr Urdd Glan-llyn. Gogyfer â'u hastudiaeth o rewlifiad ymwelwyd â Chwm Idwal. Gyda'r nos, manteisiwyd ar weithgareddau'r gwersyll . Bu'r daith yn un buddiol a gwerthfawr i'r disgyblion.

## MENTER A BUSNES YR IFAINC

Bu cwmni busnes Blwyddyn 10 "@ Plasmawr" yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth Menter Busnes yr Ifainc a gafodd ei chynnal yn ddiweddar ymysg ysgolion uwchradd Caerdydd. Dyfarnwyd disgyblion Plasmawr yn ail am farchnata a gwerthu eu cynnyrch. Gwobrwywyd Anthony Boden fel siaradwr gorau'r gystadleuaeth.

## CHWARAEON

Llongyfarchiadau mawr i Gethin Thomas (Bl. 8) a gipiodd y wobr gyntaf yn y 100m, 200m a'r 400m yng nghystadleuaeth Athletau'r Sir a gynhaliwyd yn ddiweddar. Bu Gemma Winstone (Bl. 10) hefyd yn fuddugol yn y 100m a'r 200m.

## Canlyniadau Eisteddfod Yr Urdd *Parhad o dud. 1*

*Parti Bechgyn: Oedran Bl. 7, 8 a 9 (Y.U.)*
2il Ysgol Gyfun Glantaf
*Grŵp i gyflwyno Detholiad Llafar: Oedran Bl. 7, 8 a 9 (Y.U.)*
2il Ysgol Gyfun Plasmawr
*Unawd Piano 15-19 oed*
3ydd Nia Thomas (Ysgol Gyfun Glantaf)
*Unigol i Ferched 15-19 oed: Oedran Bl. 10-13*
1af Catrin Richards (Ysgol Gyfun Glantaf)
*Llefaru Unigol 15-19 oed*
3ydd Caryl Pollard (Ysgol Gyfun Plasmawr)
*Unawd Merched 15-19 oed*
3ydd Helen Ashmore (Ysgol Uwchradd Howell)
*Unawd Llinynnol 15-19 oed*
3ydd Heledd Havard (Ysgol Gyfun Glantaf)
*Dawns Greadigol: Oedran Bl. 10-13 (Y.U.)*
3ydd Ysgol Gyfun Fitzalan
*Ensemble: 15-25 oed*
3ydd Ysgol Uwchradd Fitzalan

**GWAITH CARTREF**

*Barddoniaeth: Bl. 1 a 2 ('Gwrandewch')*
2il Alanah Jeynes (Ysgol Gynradd Sant Curig)
*Barddoniaeth: Bl. 7 ('Heb Drydan')*
3ydd Ffion Rolph (Ysgol Gyfun Plasmawr)
*Barddoniaeth: Bl. 8 ('Oes raid i mi?')*
2il Tristan Dafydd (Ysgol Gyfun Glantaf)
3ydd Steffan Jones (Ysgol Gyfun Glantaf)
*Rhaglen Radio 15-25 Oed (gwaith ar dâp sain)*
2il Salerts (Ysgol Gyfun Glantaf)
3ydd Holly a Becks (Ysgol Gyfun Glantaf)
*Drama: Bl. 10-13 ('Cyflwyniad yn ymwneud â gadael cartref')*
2il Carys Osborne (Ysgol Gyfun Glantaf)
*Gwyddoniaeth: Bl. 3 a 4 (Ymchwiliad o fewn y thema Afon)*
3ydd Y Rhaeadr (Ysgol Gynradd Sant Curig)
*Gwaith Creadigol 2D: Bl. 3 a 4*
4ydd Iola Jenkins (Ysgol Gynradd Iolo Morganwg)
*Gwaith Creadigol 2D: Bl. 5 a 6*
4ydd Daniel Williams (Ysgol Gynradd y Creigiau)
*Gwaith Creadigol 2D: Bl. 10 a 11*
2il Chris Goding (Ysgol Gyfun Glantaf)
*Gwaith Creadigol 3D: Bl. 3 a 4*
3ydd Lucy Williams (Ysgol Gynradd Bro Eirwg)
*Cerameg/Crochenwaith: Bl. 3 a 4*
1af Lucy Williams (Ysgol Gynradd Bro Eirwg)
*Caligraffeg: dan 25 oed*
1af Ffion Davies (aelod unigol)
*Gwaith Creadigol 2D (Tecstilau): Bl. 5 a 6*
4ydd Branwen Dafydd (Ysgol Gynradd Iolo Morganwg)
*Print Lliw: Bl. 3, 4, 5 a 6*
4ydd Rachael Bond (Ysgol Gynradd Pen-cae)
*Gwaith Creadigol 2D (Tecstilau): Bl. 5 a 6*
4ydd Branwen Dafydd (Ysgol Gynradd Iolo Morganwg)
*Cyfres o Brintiadau Du a Gwyn: dan 25 oed*
1af Illtud Llŷr Dunsford (aelod unigol)
*Cyfres o Brintiadau Lliw: Bl. 2 ac iau*
4ydd Catrin Herbert (Ysgol Gynradd y Creigiau)

*Adran y Dysgwyr: Llenyddiaeth Bl. 10 a 11 ('Grŵp Pop Cyfoes')*
1af Zoe Thomas (Ysgol Uwchradd Caerdydd)
2il Jodie Vaughan (Ysgol Uwchradd Caerdydd)
3ydd Louise Brown (Ysgol Uwchradd Caerdydd)
a Bethan Thomas (Ysgol Uwchradd Caerdydd)

*Gwelir y merched buddugol yn y llun isod.*




*Adran y Dysgwyr: Llenyddiaeth Bl. 12 a 13 ('Yr Amgylchedd')*
1af Caroline Howe (Ysgol Uwchradd Caerdydd)
2il Laura Barnfather (Ysgol Uwchradd Caerdydd)
3ydd Stephanie Doran (Ysgol Uwchradd Caerdydd)
a Lucy O'Neill (Ysgol Uwchradd Caerdydd)

*Eto, gwelir y merched buddugol yn y llun isod.*



# Y CAMPAU dan ofal Thomas Davies

## Y Bêl Hirgron



Mae tymor arall - un mwy cythryblus nag arfer, hyd yn oed - yn dirwyn i ben, a diolch am hynny. Bu raid ysgrifennu hyn cyn Sadwrn olaf Ebrill, ac felly nid oedd sefyllfa'r Cynghrair yn eglur, hynny yw, ni wybuwyd pa bum clwb fyddai'n cael mynd i gystadleuaeth Cwpan Ewrop (Cwpan y Cwrw) y tymor nesaf. Ond pencampwyr y tymor hwn oedd Caerdydd - neu "fyddai" Caerdydd, y dylid ei ddweud, gan fod pum gornest ganddynt i'w chwarae ar y pryd. Nid anodd, beth bynnag, oedd darogan pa glwb a'i cipiai, oherwydd bod gan Gaerdydd bum pwynt yn fwy na Glynebwy, oedd yn ail, cyn i'r ddau chwarae yng Nghaerdydd. Roedd yr Undeb wedi penderfynu y câi'r clwb a gyrhaeddai Rownd Gynderfynol Cwpan Ewrop chwarae yn Ewrop y tymor nesaf, hyd yn oed pe na byddent ymysg y pum clwb cyntaf yng Nghyngrair Cymru a'r Alban. Pedwar, felly, oedd yn ymdrechu cyrraedd y pump uchaf wedi i Lanelli oresgyn Caerdydd ar y Strade yn rownd wyth olaf Heinecen ganol Ebrill, ac erbyn hyn gŵyr pawb pwy fydd yn ymuno â Chaerdydd a Llanelli i gludo'r Ddraig i Gwpan Ewrop 2000-2001.

Ni fydd ennill y Cynghrair yn fawr o gysur i Gaerdydd wedi iddynt golli yng Nghwpan Cymru i Gasnewydd, ac wedyn ar y Strade yng Nghwpan Ewrop, ond o leiaf cânt roi cynnig arni'r tymor nesaf yn y ddwy gystadleuaeth. A fydd cynghrair arall erbyn hynny, tybed? Mi glywais Gadeirydd Caerdydd yn dweud yr ystyriai ymadael â'r Clwb oni cheid Cynghrair i glybiau'r pedair gwlad, neu o leiaf un i brif glybiau Cymru a Lloegr - ac fe gafodd gefnogaeth Abertawe. Pam y mae ambell un yn dal i feddwl am glybiau Lloegr fel modelau o rinweddau perffaith - detholion y Goruchaf? Beth bynnag, ymddengys nad oes gan glybiau Lloegr fymryn o ddiddordeb mewn chwarae yn y fath gynghrair, ac yr wyf i'n ddiolchgar i'w himperaliaeth rygbi.

Y patrwm gorau ar gyfer y dyfodol fyddai Cwpan Cymru, Cynghrair â deg clwb yn ei Adran Gyntaf, a Chwpan Ewrop â 24 o glybiau fel yr oedd y tymor hwn. Rhaid inni beidio ag anghofio am glybiau megis Dyfnant a Chaerffili, er nad oeddynt wedi ennill ond tair gornest o'u deunaw ar hugain y gaeaf hwn yn yr Adran Gyntaf. Byddai'n anfaddeuol eu hamddifadu o'r cyfle i chwarae yn erbyn ein goreuon - rhaid rhoi gobaith i glybiau tebyg gyrraedd yr Adran uchaf ar ddiwedd pob tymor. Gyda'r gornestau yn y ddau Gwpan a'r Cynghrair, ynghyd â'r gornestau rhyngwladol, byddai hen ddigon o ornestau i'n prif chwaraewyr mewn tymor. Onid ydynt yn chwarae gormod ar hyn o bryd?

## Pêl-droed



Fel hyn y gwelodd **Hywel Price** sefyllfa'r gêm yn y Brifddinas ddiwedd Ebrill:

Yn dilyn dyrchafiad i'r Ail Adran y llynedd mae dyfodol Cardiff City yn ymddangos yn eithriadol fregus ac mae'n bur debyg mai dychwelyd i'r Drydedd fydd ei dynged. Mae problemau amrywiol wedi ymddangos yn ystod y tymor sydd wedi diflasu amryw o gefnogwyr - diswyddiad y rheolwr Frank Burrows, methiant y consortiwm i brynu rheolaeth y clwb a buddsoddi miliynau o bunnoedd ynddo, ond yn bwysicach yw methiant y tîm i ennill ond pedair gêm gynghrair ym Mharc Ninian ers mis Awst. Unwaith eto mae'r bwrlwm a'r gobaith am ddyfodol gwell i'r clwb wedi chwalu. Tanlinellwyd hyn yn ddiweddar gan ganlyniad gwael arall ym Mharc Ninian yn erbyn Bury ddydd Llun y Pasg pan fethwyd sgorio gôl ac ildio dwy. Dylid nodi hefyd y bydd Cardiff City yn methu ar y cyfle i chwarae yn erbyn Wrecsam ac Abertawe y flwyddyn nesaf, ac mai tîm y brifddinas fydd y clwb isaf o ran statws cynghrair yng Nghymru. Er gwaethaf hyn oll, gellid edrych ymlaen at gêm yn erbyn Wrecsam yn rownd derfynol Cwpan Premier Cymru.

### Clwb Cymric

Er nad enillwyd unrhyw gwpanau eleni, llwyddodd y ddau dîm sydd ynghlwm wrth y clwb i gadw eu statws presennol yng Nghynghrair Caerdydd a'r Cylch - y tîm cyntaf yn yr uwch adran a'r ail dîm wedi dyrchafiad y llynedd i'r adran gyntaf. Amharwyd cryn dipyn eleni ar y tymor yn sgil y gemau rygbi rhyngwladol a'r tywydd, eto mae'r capteiniaid - Martyn Williams a Rhys Thomas - wedi gweithio'n ddiwyd wrth gadw'r timau at ei gilydd. Un datblygiad cyffrous yw presenoldeb criw o fechgyn Blwyddyn 9 o Ysgol Glantaf yn sesiynau ymarfer y clwb. Estynnir croeso i chwaraewyr newydd ymuno â'r clwb a bydd ymarfer ar gyfer tymor 2000-2001 yn dechrau nos Fercher, 5 Gorffennaf, am 6 o'r gloch ar Gaeau Llandaf. Dathlwyd diwedd y tymor yng ngwesty'r Hilton, Casnewydd, yng nghanol mis Mai.

**Y Gwasanaeth ger Cofeb Cenedlaethol Cymru i Feirw Newyn Mawr Iwerddon ym Mynwent Cathays, a gynhaliwyd Ddydd Gŵyl Padrig, 2000**

*O'r chwith: Mrs Mary Newman, Paul Burns, Dr Harri Pritchard Jones, Parch. Matthew Hill, Cynghorydd Vita Jones, John Sweeney, Conor O'Riordan (Prif Gonswl Iwerddon yng Nghymru), Richard Lewis, Canon Patrick Daly, Jenny Randerson A.C., Rheithor Syd Marriott I.C., Barry Tobin, Canon Jack Buttimore.*

*Llun: Robin Griffith.*



## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

Roedd hi'n braf ar ddechrau mis Ebrill gael ychydig o ddiwylliant yn yr ŵyl lenyddiaeth ddwyieithog wych, Llên y Lli (wedi'i threfnu gan yr Academi), yn y Bae. Yn anffodus, doedd gen i ddim digon o amser i fynd i'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau ond llwyddais i fynd i'r 'Stomp' ar y nos Wener, ac i weld 'Carol a'r Taeogion a'r Band' ar y nos Sadwrn.

"Beth yn y byd yw 'Stomp'?", rwy'n ei glywed! Wel, rhyw fath o ymryson barddoniaeth, braidd yn anffurfiol, lle mae'r gynulleidfa yn penderfynu pa fardd yw'r gorau. Roedd yna ddwsin o feirdd i'n difyrru, gan gynnwys y Prifeirdd Emyr Lewis ac Ifor ap Glyn ('y boi gyda'r bol'), Geraint Løvgreen, Eleanor Wyn Reynolds a Lisa Tiplady, yn profi nad yw barddoniaeth ar gyfer Pabell Lên yr Eisteddfod yn unig. Cyfraniadau doniol a geir gan fwyaf, wrth gwrs, ond meiddiai rhai gyflwyno gwaith mwy difrifol, a oedd yn hynod o werth-chweil, yn arbennig cyfraniad Lisa Tiplady, sy'n un o'r 'to ifanc' o ferched sy'n dod i fyny i ddisodli'r holl ddynion 'na (a hen bryd, hefyd)! Ac yn wir, merch - Eleanor Wyn Reynolds - a enillodd a mynd adref gyda stôl arbennig (y peth nesaf at gadair!) Roedd Bethan Gwanas yn wych fel 'Stompfeistres', a'r unig gŵyn sydd gennyf yw bod y system sain braidd yn rhy isel weithiau, a rhai yn colli'r rhan helaeth o ffraethineb tawel Emyr Lewis, er enghraifft.




Yr un gynulleidfa bron oedd yn y 'Point' (Sgwâr Mount Stuart) y noson ganlynol i glywed Caryl a'r Taeogion (sef Ceri Wyn Jones, Tudur Dylan Jones ac Emyr Davies). Roeddwn i'n edrych ymlaen at y noson a ches i mo'm siomi. Roedd y beirdd yn wych - a Caryl yn cynganeddu gystal â'r lleill! Yn arbennig o drawiadol oedd diweddglo y beirdd, sgwrs weddol ddoniol rhwng blaenoriaid capel yn ystyried beth allen nhw ei wneud i beidio â chau'r capel - unrhyw beth ond cydweithio â'r capeli eraill yn yr ardal. Gan fod y perfformio mewn hen eglwys wedi'i chau, roedd yn deimladwy, er gwaetha'r hiwmor. Mwynheais ganeuon Caryl a'r Band (a chyfraniadau Non Parry hefyd) - rhai hen, rhai newydd ond yn rhai da i gyd. Os cewch chi gyfle i'w clywed, peidiwch ag oedi!

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| diwylliant - *culture* | doniol - *amusing* |
| gŵyl lenyddiaeth - *literary festival* | meiddiai - *dared* |
| | disodli - *unseat* |
| dwyieithog - *bilingual* | cŵyn - *complaint* |
| gwych - *splendid* | ffraethineb - *wit* |
| gweithgareddau - *activities* | trawiadol - *striking* |
| ymryson - *contest* | diweddglo - *finale* |
| cynulleidfa - *audience* | blaenoriaid - *elders/deacons* |
| difyrru - *entertain* | ystyried - *consider* |
| cyfraniadau - *contributions* | teimladwy - *moving* |

**Prifardd** = bardd sy wedi ennill y Gadair neu'r Goron
**cynganeddu** = creu cerddi mewn cynghanedd - h.y. hen ffurf arbennig iawn

Mae CYD yn gwahodd Cymry Cymraeg a Dysgwyr o bob oedran i gymryd eich beic a dod gyda ni ar

### Lwybr Taf




ddydd Sadwrn 24 Mehefin
Yn dechrau am 10.30 o flaen y Ganolfan Chwaraeon yn Heol yr Eglwys Gadeiriol
Dewch â'ch picnic
Manylion: Padi - 029 2031 2293

**Digwyddiadau CYD**

Dydd Llun ola'r mis - Pen & Wig, 1.00 - 2.00
Nos Fercher - Tafarn y Tavistock, Stryd Bedford - 9.00
Nos Iau - Gwesty Parc y Rhath, Lôn y Plwca (*City Rd*) - 9.00
Dydd Gwener - Y Bont-faen, Tafarn y Dug - 12.00.
*Am fanylion pellach ffoniwch Padi Phillips - 029 2031 2293*

## Y Border Bach

**gan Hwn a Hon**



Mae gan bawb ei ffefryn ym myd y blodau. Rhai yn hoffi'r rhosod a'u persawr, neu flodau siew fel y begonias mawr, eraill yn frwd am dyfu dahlias. Petai'n rhaid i mi ddewis un grŵp o flodau i'w gael yn fy ngardd rwy'n credu y byddai teulu'r *geranium* yn uchel ar y rhestr. Nid y *pelargonium* (a gamenwir yn *geranium*) a geir mewn potiau a basgedi crog yn yr haf, ond teulu pig-yr-aran. Planhigion parhaol, di-drafferth ydynt. Nid yw eu blodau yn rhwysgfawr ond mae iddynt ryw swyn hen-ffasiwn. Efallai mai dyna pam yr wyf mor hoff ohonynt!

Mae eu poblogrwydd wedi cynyddu yn ddiweddar. Rai blynyddoedd yn ôl dim ond ychydig o fathau oedd ar gael, ond erbyn hyn y mae cannoedd. Maent yn amrywio yn eu maint, eu lliw a'u ffurf. Mae rhai yn fyr ac yn addas i'w tyfu ym mlaen y border neu mewn creigfa, fel y math *G. cinereum,* 'Ballerina' neu 'Lawrence Flatman', sydd â blodau pinc drwy'r haf. Un arall yw *G. sessiliflorum,* 'Nigricans', sydd â dail tywyll a blodau gwyn. Mae rhai yn tyfu'n dalach, tua deuddeg i ddeunaw modfedd o uchder, ac oherwydd eu hanffurfioldeb yn eu gwneud yn gartrefol mewn borderi cymysg lle gallant wau eu ffordd drwy'r blodau eraill. Maent hefyd yn dda am orchuddio tir a chadw chwyn i lawr, ac yn addas i dyfu o dan goed rhosod.

Gyda'r cyntaf i flodeuo yw *G. phaeum* neu'r 'Mourning Widow', blodyn sydd bron yn ddu er bod yna ffurf wen ar gael hefyd. Mae hwn a'r *G. macrorrhizum* y soniais amdano y tro diwethaf yn hapus yn y cysgod. Fe gewch rai sy'n tyfu'n dalach, rhwng dwy a thair troedfedd, ac yn well yng nghefn y border, e.e. *G. pratense,* 'Mrs Kendall Clark', sy'n lliw glas golau. Mae'r lliwiau ar y cyfan yn amrywio o wyn, gwahanol fathau o binc, porffor a glas, er y gall rhai fod yn eithaf llachar. Mae'r math *G. wallichanum,* 'Buxtons Blue' - yn las clir â llygad gwyn, yn dod yn wreiddiol o Nepal, ac yn blodeuo tan yr Hydref - yn cael ei gyfrif gan rai i fod yr harddaf.

Gellid dweud bod y teulu yma yn flodyn i'r garddwr diog. Does dim llawer o angen gofal arnynt ar wahân i dorri'n ôl ar ôl iddynt flodeuo. Maent yn hawdd i'w tyfu, yn dychwel bob blwyddyn a dydyn nhw ddim at ddant y malwod! Chwiliwch amdanynt - maent yn werth eu cael!

## CERDDI GOBAITH

Ym mis Mai eleni, dyfarnwyd yr ail safle yng nghystadleuaeth y Gadair yn Eisteddfod Môn am y cerddi a ganlyn ar y testun 'Gobaith', a gyfansoddwyd gan John Emyr, Golygydd Cofnod y Trafodion yn y Cynulliad Cenedlaethol. Meddai'r beirniaid, y Prifeirdd John Gwilym Jones a Cen Williams, am gerddi 'Gobaith fo'n Meistr': 'Mae'r cerddi'n gyforiog o gyfeiriadaeth . . . Daw'r Eglwys Norwyaidd yn y Bae yng Nghaerdydd yn symbol o fenter yn llwyddo ac yn her i'r genedl i wneud i'r Cynulliad lwyddo yn yr un modd . . . Bellach mae gobaith newydd i'r genedl . . . Dilyniant cadarn iawn, dilyniant y mae'n rhaid ei ddarllen yn ofalus drosodd a throsodd i geisio gweld arwyddocâd y gyfeiriadaeth a'r symbolau a ddefnyddir, dilyniant a'n boddhaodd ni'n dau'n fawr.'

**TRYDANWR**
gyda dros 20 mlynedd o brofiad
Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd
*PRISIAU RHESYMOL*
Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **01222 868208**
neu **0468 973229**

**Dros yr Un Darn Tir**
Meddyliau gwibiog sy'n llifo uwchben
Tir, fel rhychwant enfys
Neu uned colomennod
Mewn patrwm disglair, cyfnewidiol, chwim
Yn syrthio ar draws wybren.

Gwyrth geiriau yw dal hyn:
Y llif egni sy'n croeslifo,
Y dyfroedd sy'n cydgyfarfod
Neu grychau croen o gwmpas gwên -
Y pethau disglair, darfodedig, chwim.

Y meddyliau a gewch
Wrth i'r un gwynt orlifo
Dros yr un darn tir.

Fy ngeiriau tlawd gofnodant hyn
- corlannu'r funud awr,
A geiriau ffrindiau yr un pryd,
Ein dal ni wrth ein gilydd,
Ni sy'n mynd heibio,
Wrth yr hyn nad yw'n mynd heibio,
Fel llwythau cenedlaethau chwim yn teithio
Heb symud
Dros yr un darn tir.

**Noson y Refferendwm**
Dros wifrau'r nerfau ehedai
Ystadegau'n sarhad;
Yr hen gywilydd a gwarth
Yn cau amdanom.

A hanner nos wedi hen fynd heibio
A ninnau'n barod i olchi'n clwyfau
Ym mhyllau budr Cilmeri arall,
Ar flaen y wawr daeth colomen gobaith
O'r hen Sir Gâr.

Yn lle nos y Na
Daeth le ffydd
I ailddatgan
Cariad a gobaith y rhai a fu
Yma o'n blaen.

Yng nghaer agored y dydd
Bu gorfoleddu,
A'r cydio dwylo'n dolennu
Cadwyn ein rhyddid.

**Cyfarfyddiad yn Cathays**
Yng ngenau'r danffordd
Fe'i gwelais,
Ei wedd yn welw,
Wedi ei dieithrio gan angau
A dywedais,

'Y canol yw hwn,
Prifddinas ein grymoedd, man cynnull parhad.'

Yntau a'm holodd, 'Mae'r llys?
Mae'r gerdd a'r osgordd
A'r llawen chwedl wedi'r disgwyl maith?'

Araf y cerddasom drwy erddi'r castell,
Ond ni sylwai ef ddim
Ar na flodau'r deri na rhianedd yr haf.

Yna fe'm siarsiodd:
'Llefara', meddai,
A soniais wrtho am helynt y dydd -
Yr ymdrech a'r fuddugoliaeth.

'Gwag ymffrost wedi cad', atebodd
Cyn holi eto, 'Mae llys
Ei glwyfau, cynulliad mawl?
Mae'r gobaith mewn galar, y bont o'r byd?'

Yna fe gerddodd ymaith,
Ei wynepryd yn ddwys,
Ac ni welais ef drachefn.

**Dewch Adre i'r Bae**
A dyma hi, ein glanfa ni,
Ein rhyngwyneb electronig
Ger Iwerydd ein dyfodol.

Hyd wifrau'r rhyngrwyd ehedwn
I'r Hen Ogledd,
Hyd wifrau'r fewnrwyd dychwelwn
I'n dyfodol.

Yn y nos wele gragen risial
Y gwesty pum seren;
Yno daw arweinwyr byd
I aros dan gronglwyd Dewi
Y deuddeg seren ac un.

Brysiwn i siarad â'n cyd-fforddolion
Ar yr uwch-draffordd gwybodaeth,
Ond ofnwn gymdogion y trothwy
Yn nieithrwch clòs eu hen fyd.

O'n tŵr electronig
A'n trigfan warchaeëdig,
A fentrwn ni allan weithiau
I gydgymdeithasu o gwmpas siartiau
Profedig yr eglwys wen?

**Tirlun Gobaith**
Lle bu'r môr yn llyfu clwyfau'r tir
Ac Afon Taf yn llaesu tafod
Ar gyrion cywilydd y cof;

Lle bu cenedl cyn dod i oed
Yn ei chynnig ei hun yn rhad
Am arian gloywon y dŵr o law y nos;

Lle mae popeth pur yn peidio â bod
A'r eneth ifanc cyn ei llygru
Yn prifio i wisgo pydredd;

Daeth hon o'r gwyll a'i gruddiau'n llaith,
Y craeniau'n ymostwng iddi,
Y môr yn cronni erddi,
A bywyd yn agor iddi
Y tu hwnt i berl y bae.

**Glanfa Iwerydd**
Lle teilwng o reg
Ar wefusau Taf,
Lle gwatwar a gwawd,
Nid cusan lân;
Y llaid heb rym a'n gobaith
Bob amser ar drai.

Ond yma hefyd rhoed ernes -
Eglwys wen y Norwyaid
A ddaeth yma â'u cargo drud:
Crist yn yr howld,
Ei Air ym mhob cerrynt
A'i ras yn angor cadarn
Yn nyfnfor di-redar eu dydd.

Fan hyn ger yr eglwys wen,
Yn y gwagle a welir yn awr,
A ddown wedi'r disgwyl maith
Wedi'r helynt i'n harbwr a'n hedd?

**Pe Gallwn Egluro**
Pe gallwn egluro wrth i'r nos amgáu
Am y trên a'r milltiroedd a ddaeth
rhyngom ein dau,
Pe gallwn egluro'r gwyll ynof i,
Fe'i heglurwn i ti.

Pe gallwn egluro, y noswaith hon,
Y llewyrch sy'n lladd pan fo'r gwyll yn llon;
Pe gallwn egluro'r brath ym mhob bri,
Fe'i heglurwn i ti.

Pe gallwn egluro cyn diwedd y daith
Y clod sy'n bod er pob siom a chraith,
Pe gallwn egluro ein gobaith ni,
Fe'i heglurwn i ti.

# REES WOOD a TERRY

A ydych chi wedi cael **damwain?**

Efallai y gallwch hawlio **iawndal?**

Mae'r cyfweliad cyntaf **yn rhad ac am ddim.**

Cysylltwch â Rhys Ll. Thomas
01222 - 666222

## AR WERTH
## CARAFAN a PHIANO

**Piano** cyngerdd bach (baby grand) mewn cyflwr da. Cynnig cynta dros £1,000.

**Carafan** symudol Compass Echo, yn cynnwys adlen ac adlen fewnol (cysgu hyd at 7), a phopeth angenrheidiol i garafanio. Derbynnir cynigion dros £1,000.

Lleoliad: Bro Gwyr (cyfleus i faes Steddfod Llanelli)

**Ffoniwch 029 20256457 i drafod**

**AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF**

*Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â*

**Geraint B. Llewelyn**
LL.B. B.A(ADD) MLIA (DIP)


291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED,
CAERDYDD, CF23 6PA
FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORICHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

S4C. PRIF LWYFAN DRAMA CYMRU

# Porc Peis Bach

YN CYCHWYN MIS MEHEFIN 2000



S4C